CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF

CYLCHlythyr

GAEAF 2024

# Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru yn arwain y ffordd wrth olrhain gwrthfiotigau

Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf (WLBP) ar flaen y gad o ran ymdrechion i fynd i'r afael â phroblem fyd-eang ymwrthedd i wrthfiotigau drwy arwain y ffordd wrth olrhain y defnydd o wrthfiotigau mewn da byw.

Mae aelodau WLBP wedi bod yn gweithio gyda'u milfeddygon i gyfrifo faint o wrthfiotigau ar gyfartaledd sy'n cael eu defnyddio ar ffermydd cig eidion, defaid a llaeth yng Nghymru gan ddefnyddio Cyfrifiannell Defnydd Gwrthficrobaidd WLBP.

Mae mesur y defnydd o wrthfiotigau ar ffermydd yn rhan o Gynllun Gwarant Fferm Da Byw WLBP (FAWL). Mae adroddiadau blynyddol ar Ddefnydd Gwrthficrobaidd (AMU) yn cael eu cynhyrchu gydag Adroddiad 2022 bellach ar gael ar wefan WLBP. Bydd Adroddiad AMU WLBP 2023 ar gael ym mis Chwefror 2025.

Mae canlyniad y gyfrifiannell yn caniatáu i ffermwyr fesur eu defnydd o wrthfiotigau yn effeithiol ac, os oes angen, gweithio gyda'u milfeddyg i wella iechyd anifeiliaid. Mae cadwyni cyflenwi yn gofyn fwyfwy i'w ffermwyr ddarparu data defnydd gwrthfiotigau. O dan ganiatâd data llym mae'r gyfrifiannell yn caniatáu i ffermwyr rannu'r data hwn gyda'r gadwyn gyflenwi o'u dewis. Mae hyn yn lleihau dyblygu ac yn gwneud y broses o rannu data a ganiateir yn llawer haws.

Dywedodd Rheolwr Cyffredinol WLBP, Iestyn Tudur-Jones, "Mae WLBP bob amser wedi gweithio'n agos gyda ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi wrth ddatblygu safonau FAWL neu drwy ofyn i aelodau gymryd rhan mewn mentrau newydd. Mae'r dull hwn, o lawr gwlad i fyny, yn gweithio'n llawer gwell na gosod rheoliadau ychwanegol heb ymgynghori. Bu WLBP yn cydweithio â milfeddygon,



ffermwyr a datblygwyr meddalwedd i ddatblygu system i fesur y defnydd o wrthfiotigau sy'n cynhyrchu canlyniadau cywir a dilys er mwyn dilysu'r honiadau bod cynhyrchwyr da byw Cymru yn defnyddio gwrthfiotigau mewn modd cyfrifol."

Mae data ar werthiant gwrthfiotigau yn cael ei ddal a'i gywain trwy Gyfrifiannell AMU WLBP, sydd wedi'i ddylunio'n arbennig i'r perwyl hwn. Mae'r offeryn adrodd newydd hwn yn cynhyrchu adroddiadau safonol ar y defnydd o wrthfiotigau (AMU) yn seiliedig ar fetrigau y mae'r diwydiant wedi cytuno arnynt. Mae'r canlyniadau'n cael eu mynegi fel miligramau o wrthfiotigau a ddefnyddir fesul cilogram o anifail, mesuriad sy'n cael ei dderbyn gan y llywodraeth a rhanddeiliaid y gadwyn gyflenwi.

Mae ffermwyr Cymru wedi croesawu'r dull gwirfoddol hwn, sydd wedi arwain at yr hyn y credir yw'r set ddata annibynnol fwyaf o'i bath yn y DU.

**Gellir gweld copi llawn o Adroddiad AMU WLBP 2022 yn: https://www.wlbp.co.uk/cy/wlbp-annual-amu-reports/2022**



# Neges gan filfeddyg ynglŷn â Deddfwriaeth BVD yng Nghymru

Bydd gweithredu deddfwriaeth Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yng Nghymru a difa'r clefyd yn daith i ffermwyr a milfeddygon fel ei gilydd, ac mae'n hanfodol bod ffermwyr a'u milfeddygon yn ymrwymo i'r broses hon.

Mae adnabod a chael gwared ar anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n barhaus (PI) cyn gynted â phosibl yn hanfodol wrth geisio cael gwared ar BVD ar lefel buches ac ar lefel genedlaethol. Mae'r prawf gwirio blynyddol a gynhelir ar dda ifanc trwy sgrin BVD Cymru wedi'i gynllunio i adnabod presenoldeb anifeiliaid PI mewn bches sy'n lledaenu BVD.

Fel rhan o broses barhaus, mae bwrdd Llywodraethu dros dro sy'n cynnwys WLBP, yr undebau ffermio, partneriaid cyflawni milfeddygol a ffermwyr sy'n gweithio wedi'i sefydlu ar gyfer BVD Cymru ynghyd â Grŵp Cynghori Technegol dros dro (TAG) . Rôl y grŵp TAG yw mynd i'r afael â materion gweithredu deddfwriaeth BVD ar lefel ymarferol. Bydd llawer o'r gwaith yn seiliedig ar yr ymholiadau a godwyd gan ymarferwyr a ffermwyr.

Rhagwelir y bydd llawer o'r gwaith profi gwaed yn cael ei wneud yng Nghanolfan Milfeddygaeth Cymru (WVSC) yn Aberystwyth. Mae llawer o ffermydd eisoes wedi cael eu sgrinio ers lansio BVD Cymru.

Gyda'r mesurau deddfwriaethol ychwanegol yn cael eu cyflwyno ar 1 Gorffennaf 2025, mae'n hanfodol bod unrhyw ganllaw/cyngor y mae BVD Cymru yn ei gynhyrchu ar gyfer ffermwyr a milfeddygon yn gadarn ac yn ymarferol ar lefel fferm. O ystyried natur y fframwaith deddfwriaethol, sydd wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru, mae'n anochel bod llawer o faterion heriol o ran gweithredu ymarferol yn parhau, ac mae angen mynd i'r afael â nhw.

Yn y pen draw, wrth gwrs, fel diwydiant, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar y nod yn y pen draw, sef cael gwared â BVD yng Nghymru.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth: **https://www.llyw.cymru/cynllun-dileu-dolur-rhydd-feirysol-buchol-cymru-canllawiau-html**

**Gareth Mulligan MRCVS**
Milfeddyg (Afon Vets, De Cymru)
Cyd-aelod o dîm Iechyd da BVD
Aelod o grŵp dros dro TAG BVD Cymru

## CYFATHREBU DRWY E-BOST

**Dros y blynyddoedd diwethaf mae WLBP wedi bod yn cyfathrebu drwy e-bost fel ffordd effeithlon o rannu gwybodaeth bwysig gyda'n haelodau. Wrth i ni barhau i anfon anfonebau a gohebiaeth drwy e-bost, ychwanegwch ni at eich 'rhestr ddiogel' os gwelwch yn dda. Rydyn ni hefyd yn croesawu gwybodaeth drwy negeseuon testun a WhatsApp.**

**Ebost: info@fawl.co.uk**
**Negeseuon testun / WhatsApp: 07389 707016.**

# Mae Aelodau FAWL wedi'u heithrio o'r Rhif Ardystio Milfeddygol (VAN)

**Gallwch ddefnyddio aelodaeth o Gynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL) fel tystiolaeth i fodloni gofynion allforio o dan Reoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE (Rheoliad (UE) 2016/429).**

**Daeth rheoliad newydd yr UE i rym ar Rhagfyr 13eg, 2023. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw ffermydd sy'n cynhyrchu anifeiliaid neu gynhyrchion gan anifeiliaid neu gynhyrchion eginol i'w hallforio i'r UE (neu symudiadau i Ogledd Iwerddon o dan amodau Protocol Gogledd Iwerddon) fod yn destun ymweliadau milfeddygol 'rheolaidd'.**

**Dim ond os ydynt yn darparu anifeiliaid neu gynhyrchion perthnasol i'w hallforio i'r UE neu symudiadau i Ogledd Iwerddon y mae angen i ffermwyr gydymffurfio â'r gofyniad hwn.**

**Mae WLBP yn falch o gadarnhau bod bod yn rhan o gynllun FAWL yn rhoi'r gallu i aelodau gydymffurfio â'r gofyniad newydd hwn gan fod y cynllun yn gymwys fel cynllun sicrwydd cydnabyddedig. Felly, nid oes angen Rhif Ardystio Milfeddygol (VAN).**

**Rhaid i unrhyw un sydd ddim yn dod o fewn y categori o fod yn rhan o gynllun sicrwydd cydnabyddedig ddefnyddio'r amser sydd ar gael i naill ai eithrio eu hanifeiliaid neu gynhyrchion o allforio i'r UE, ymuno â chynllun sicrwydd fferm cydnabyddedig neu gael datganiad milfeddygol priodol – Rhif VAN.**

## WLBP – Cyfryngau Cymdeithasol

**@WLBProducers**

**Welsh Lamb and Beef Producers**
**Cynhyrchwyr Cig Oen Ac Eidion Cymru**

**WLBProducers**

## Mae eich manylion yn cyfrif

**Dros y 12 mis diwethaf, ymwelwyd â'n gwiriwr gwe FAWL dros 226,000 weithiau. Defnyddir y gwiriwr yn bennaf gan farchnadoedd da byw, lladd-dai, canolfannau casglu, prynwyr da byw, masnachwyr amaethyddol ac awdurdodau lleol.**

**Mae'r busnesau hyn yn defnyddio'r gwiriwr gwe i gadarnhau statws sicrwydd presennol / byw aelodau FAWL. Mae'r gwiriadau hyn yn hanfodol os ydyn nhw'n prynu da byw Gwarant Fferm o Gymru neu am ddod o hyd i aelodau sy'n elwa o gael eu cydnabod gan asiantaethau fel ASB Cymru (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd) ar gyfer cydnabod bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn golygu y bydd llai o arolygiadau awdurdodau lleol ar gyfer aelodau FAWL.**

**Mae'n bwysig bod gennym eich manylion cywir. Os oes unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yn eich manylion fferm h.y. rhif daliad (CPH), daliadau ychwanegol, enw masnachu neu gyfeiriad, rhowch wybod i ni gan y gallai hyn effeithio ar eich gallu i werthu stoc fel stoc gwarantedig. Cysylltwch â ni: 01970 636688 neu e-bostiwch info@fawl.co.uk**

## Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyf yn cael ei gynnal yn rhithiol (dros TEAMS) ar 12 Rhagfyr 2024, dydd Iau am 2.00pm i ystyried yr Agenda canlynol:

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Derbyn ac, os ystyrir yn addas, mabwysiadu'r cyfrifon ariannol blynyddol a'r adroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.2024 (darnau o'r cyfrifon fel isod).**
3. **Penodi Cyfarwyddwyr – David Bebb Evans a Dafydd Jones yn ymddeol drwy gylchdro ac yn cynnig eu hunain i'w hailethol. (Gellir dod o hyd i ffurflen enwebu ar gyfer darpar gyfarwyddwyr trwy glicio ar y ddolen ddigidol neu cysylltwch â'r swyddfa fel isod i ofyn am gopi caled).**
4. **Penodi cyfrifwyr adrodd – WR Partners, cyfrifwyr yn cynnig eu hunain i gael eu hailethol.**
5. **Unrhyw fater arall**

**Alice James**
**Ysgrifennydd y Cwmni**
**Tachwedd 18, 2024**

**Nodwch, os hoffech fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn rhithwir dros TEAMS, gofynnwch am y ddolen briodol drwy e-bostio info@wlbp.co.uk. Os hoffech gopi llawn o gyfrifon ariannol y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.2024, anfonwch e-bost at info@wlbp.co.uk.**

**https://shorturl.at/EmCOG**

**DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR** *(£000s)*

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| **Trosiant** | **2234** | **1758** |
| Cost Gwerthiannau | –2084 | –1574 |
| **Elw Gros** | **150** | **184** |
| Costau Gweinyddol | –140 | –164 |
| Llog Derbyniadwy | 24 | 0 |
| Trethiant | –20 | –13 |
| **Elw ar gyfer y Flwyddyn** | **14** | **7** |

**MANTOLEN** *(£000s)*

| | | 2024 | | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | **31** | | **36** |
| **Asedau Cyfredol** | | | | |
| Arian parod yn y banc | 1420 | | 1640 | |
| Dyledwyr | 242 | | 198 | |
| | 1662 | | 1838 | |
| Credydwyr | –929 | | –1124 | |
| **Asedau Cyfredol Net** | | **733** | | **714** |
| | | **764** | | **750** |

**CYFALAF A CHRONFEYDD**

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| Rhannu Cyfalaf | 2 | 2 |
| Cronfeydd | 762 | 748 |
| | **764** | **750** |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Er Sylw Ceidwaid Defaid: Llywodraeth Cymru yn newid dyddiad y Stocrestr Flynyddol

**Dim ond nodyn i'ch atgoffa bod Llywodraeth Cymru wedi newid dyddiad y Stocrestr Flynyddol i 1 Rhagfyr. Mae'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw wedi'i ddiweddaru i gynnwys y newid hwn fel a ganlyn:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cofnod Diadelloedd Defaid | 1d *** | D | Rhaid cadw cofrestr diadelloedd ar y fferm yn unol â deddfwriaeth berthnasol gyfredol. Rhaid gwneud rhestr bob blwyddyn o'r defaid oedd ar ddaliadau ar **1 Rhagfyr**. Rhaid cofnodi'r holl fanylion am adnabod, marwolaethau a symud:<br>**Manylion Adnabod** – O fewn 36 awr i dagio'r oen (fel yn 1c uchod)<br>**Marwolaethau** – O fewn 36 awr i ddarganfod marwolaeth. Rhaid i'r cofnod gynnwys dull o waredu'r carcas a manylion adnabod perthnasol.<br>**Symud** – O fewn 36 awr i'r symud ac adrodd i EID Cymru (neu 48 awr os defnyddir Pwynt Cofnodi Canolog). Rhaid i'r manylion gynnwys y dyddiad, nifer y defaid a'u manylion adnabod, eu man cychwyn a phen y daith. | Cyfeiriwch at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru – Canllaw i Geidwaid – Rheolau ar gyfer Adnabod Defaid a Geifr – Adran 4 (Gweler uchod am ddolen)<br>Argymhellir defnyddio pecyn cofnodion symudiadau ar-lein WLBP, llyfr cofnodion addas fel Llyfr Cofnodion Defaid a Geifr Llywodraeth Cymru neu wasanaeth ar-lein EID Cymru |

# WLBP yn cymryd rhan yn Adolygiad Sicrwydd Fferm y DU

**Cefndir**

Yn gynharach eleni comisiynwyd adolygiad annibynnol ar y cyd gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwr (NFU) a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), ynghyd ag NFU Cymru, Undeb Ffermwyr Ulster (UFU) ac NFU yr Alban (NFUS), i ffurfio rhan o grŵp arweinyddiaeth yr Adolygiad Sicrwydd, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ei gyflawni.

Mae Adolygiad Sicrwydd y DU ledled y diwydiant wedi canolbwyntio ar addasu sicrwydd at ddibenion gwahanol mewn byd ar ôl Brexit.

Ei nod oedd ceisio cael adborth gan bob ffermwr, crofftwr a thyfwr am bob cynllun sicrwydd fferm gyda'r bwriad o chwyldroi'r sicrwydd o'r fferm i'r fforc, gan ei wneud yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r adolygiad wedi ystyried

- Sut y gall sicrwydd fferm roi gwerth yn ôl i aelodau'r cynllun
- Sut mae safonau'n cael eu datblygu i ddiwallu anghenion esblygol aelodau, y marchnadoedd maen nhw'n eu gwasanaethu, amrywiaeth y sector ac yng nghyd-destun y farchnad fyd-eang
- Sut ymgysylltir ag aelodau sicrwydd (gan gynnwys datblygu safonau), sut maen nhw'n cael eu harolygu a sut y defnyddir technoleg mewn sicrwydd nawr ac yn y dyfodol
- Sut y gall a sut y dylai cynlluniau sicrwydd gyd-fynd â rheoliadau a chynlluniau'r llywodraeth i wasanaethu aelodau orau

**Comisiynwyr**

Penododd y grŵp bedwar comisiynydd sy'n gyfrifol am osod cylch gorchwyl a llinell amser i sicrhau bod y broses yn darparu canlyniadau clir i'r diwydiant. Y comisiynwyr a benodwyd i gynnal yr adolygiad oedd:

- Dr David Llewellyn CBE (prif gomisiynydd) – cyn Is-Ganghellor Prifysgol Harper Adams
- James Withers – cyn Brif Swyddog Gweithredol Bwyd a Diod yr Alban
- Mark Suthern – Cadeirydd Ymddiriedolwyr Rhwydwaith y Gymuned Ffermio (FCN)
- Katrina Williams – cyn Was Sifil ym maes llunio Polisi a gweithredu deddfwriaeth

Mae'r Comisiwn wedi atgyfnerthu'r angen am ymgysylltiad da â'r diwydiant yn ogystal â thryloywder trwy gydol y broses. Mae'r comisiynwyr wedi cynnal eu hadolygiad drwy ymgysylltu wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau allweddol yn y diwydiant, arolwg a phroses ymgynghori.

Cefnogwyd y comisiynwyr gan Promar International a Supply Chain InSites (SCI) yn yr adolygiad, gan sicrhau tryloywder ac annibyniaeth.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys y prosesau canlynol:

- Ciplun o Safonau Sicrwydd Fferm y DU
- Mynegi anghenion y sector
- Galw am farn ffermwyr
- Galw am safbwyntiau o'r gadwyn gyflenwi

Bydd y Comisiynwyr yn darparu eu hadborth a'u hargymhellion ar ddiwedd 2024.

